Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

# Digwyddiadau Ymgysylltu
# Cynghorau Cymuned a Thref

# Adroddiad ar Ganfyddiadau

# Mawrth 2017

**Cyflwyniad**

Cynhaliodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn casglu safbwyntiau sector y cyngor cymuned a thref o ran ei fframwaith cydnabyddiaeth ariannol bresennol. Mae'r Panel yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran am eu cyfraniadau.

Cynhaliwyd tri digwyddiad rhanbarthol:

| Lleoliad | Dyddiad | Nifer y Cynghorau a gynrychiolwyd | Nifer y Cynghorwyr yn bresennol | Nifer y Clercod yn bresennol |
|---|---|---|---|---|
| **Llandudno** | 26ain Ionawr 2017 | 19 | 17 | 12 |
| **Llanbedr Pont Steffan** | 2il Chwefror 2017 | 15 | 5 | 10 |
| **Y Fenni** | 15fed Chwefror 2017 | 22 | 16 | 17 |

Roedd y digwyddiadau ymgysylltu yn cynnwys cyflwyniad byr gan y Panel ar ei benderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref, gyda sesiwn drafod o amgylch y bwrdd i ddilyn. Roedd cynrychiolaeth o gyfanswm o 56 o gynghorau yn y digwyddiadau hyn, 7.6% o'r holl gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, gyda 39 o glercod a 38 o gynghorwyr yn bresennol i gyd. Roedd Prif Weithredwr Un Llais Cymru hefyd yn bresennol mewn dau o'r tri digwyddiad.

Trafodwyd y pynciau canlynol yn y sesiwn o amgylch y bwrdd:

1. **Trosolwg cyffredinol o weithgareddau'r cynghorau**
   - Pa swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd gan eich cyngor? (E.e. hamdden, mynwentydd, goleuadau ac ati)
   - Sut mae'r cyngor yn gweithredu? (E.e. rôl y clerc, maint, nifer y pwyllgorau cyfarfodydd ac ati)

2. **Lwfans o £150 ar gyfer TG a Nwyddau Traul**
   - A yw eich cynghorwyr yn defnyddio'r lwfans hwn ac a yw'r swm yn ddigonol?
   - Pa dreuliau eraill sydd gan gynghorwyr?

3. **Rolau uwch yn y Cyngor (ac eithrio'r Maer/Cadeirydd)**
   - Pa rolau uwch yn y cyngor sy'n cael y lwfans uwch, os o gwbl?
   - Pa fath o rolau uwch sy'n bodoli yn eich cyngor chi?

4. **Lwfans Dinesig**
    - A yw Cadeirydd / Maer eich cyngor chi yn cael lwfans personol?
    - Beth yw ymrwymiad amser / llwyth gwaith Cadeirydd/Maer?

5. **Teithio a Chynhaliaeth**
    - A oes angen hawlio costau teithio a chynhaliaeth ar gynghorwyr yn aml?
    - Pa fathau o weithgareddau mae cynghorwyr yn hawlio costau teithio a chynhaliaeth amdanynt?

6. **Costau Gofal**
    - A oes unrhyw un o'ch cynghorwyr yn hawlio ad-daliad am gostau cyfrifoldebau gofal? A oes unrhyw rwystrau wrth hawlio?

7. **Edrych i'r dyfodol**
    - A oes unrhyw newidiadau neu heriau i ddod a allai effeithio ar ofynion cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr cymuned a thref?

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r digwyddiadau, gan gynnwys y pryderon a godwyd gan glercod a chynghorwyr, yn ogystal ag ymateb y Panel.

## Crynodeb o'r Canfyddiadau

### 1. Trosolwg cyffredinol o weithgareddau'r cynghorau

Roedd y cynghorau a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau hyn yn cynrychioli ystod eang o ran maint a swyddogaethau cynghorau cymuned a thref. Pwysleisiodd llawer o'r cynghorau'r ystod eang o swyddogaethau maent yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys llawer o asedau cymunedol a chytundebau lefel gwasanaeth gwerthfawr. Mae tuedd ar ledled yr holl ranbarthau i'r Prif Gynghorau ofyn i gynghorau cymuned a thref ymgymryd â'r swyddogaethau nad oes modd i'r Prif Gynghorau eu hariannu rhagor, megis parciau, goleuadau stryd a thoiledau cyhoeddus. Mae gwariant ac archebion cynghorau hefyd yn amrywio'n sylweddol.

Roedd y rhan fwyaf o gynghorau a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau yn cyflogi clerc amser llawn neu ran-amser, gyda rhai cynghorau'n cyflogi mwy o swyddogion i ddarparu gwasanaethau gweinyddol yn ogystal â gwasanaethau cynnal a chadw hefyd. Mynegodd llawer o glercod bod eu llwythi gwaith yn drwm a bod gofynion y rôl a swyddogaethau cynyddol cynghorau yn golygu bod eu llwyth gwaith yn llawer mwy na'r oriau sydd wedi'u nodi yn eu contract.

Er nad oedd teimlad cyffredinol bod cynghorwyr yn gweithio gormod, nodwyd bod y rôl yn ehangu, gyda mwy a mwy o alw a gofynion hyfforddi. Roedd llawer yn teimlo bod natur 'wirfoddol' ymddangosiadol y rôl yn golygu bod hyn yn cael ei dderbyn. Nododd y rhan fwyaf o gynghorwyr a chlercod bod y rhan fwyaf o aelodau'r cyngor wedi ymddeol a bod y cynghorwyr a chanddynt swyddi cyflogedig hefyd yn lleiafrif.

Roedd rhai cynghorau'n teimlo bod yr aelodau sy'n gwisgo dwy het yn ased i'r cyngor cymuned ac yn helpu i gynnal perthynas â'r prif gyngor. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo eu bod yn rhwystr gan fod yn rhaid iddynt yn aml ddatgan diddordeb mewn materion a bod busnes y prif gyngor yn cael blaenoriaeth dros fusnes y cyngor cymuned i'r unigolion hynny. Cododd rhai hefyd fater o gydnabyddiaeth ariannol ddwbl os oedd cynghorwyr dwy het yn hawlio lwfansau gan y cyngor cymuned yn ogystal â'r prif gyngor, ond nid yw hyn i weld yn arfer cyffredin.

### 2. Lwfans o £150 ar gyfer TG a Nwyddau Traul

Mae'r nifer sy'n manteisio ar y lwfans sylfaenol o £150 ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref yn parhau'n gymharol isel. Nododd nifer o'r cynghorwyr eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau fel gwasanaeth cyhoeddus a bod ysbryd gwirfoddoli cryf ymysg cynghorwyr. Mae llawer o gynghorwyr yn dewis peidio â chymryd unrhyw lwfansau am

roi o'u hamser na'u hymdrechion. Er syndod, nododd rhai nad oeddent hyd yn oed yn gwybod bod lwfansau ar gael, petai'r cyngor yn cytuno i'w darparu.

Roedd y rheini sy'n defnyddio'r lwfansau'n teimlo'n gyffredinol bod £150 yn uchafswm priodol i dalu am gostau'n gysylltiedig â'r rôl. Roedd y rhan fwyaf o hawliadau a oedd yn cael eu gwneud ar gyfer eitemau traul fel papur, neu nwyddau ysgrifennu, neu i dalu am gostau galwadau ffôn a'r rhyngrwyd. Roedd rhai cynghorau'n symud i weithio'n electronig yn hytrach nag ar bapur, a nodwyd bod costau o ran darparu'r cyfarpar TG angenrheidiol ar gyfer y ffordd hon o weithio. Roedd llawer o gynghorau'n dal i ddarparu copïau papur ar gyfer eu haelodau drwy'r clerc, ac roedd hyn yn cael ei dalu o gyllideb y clerc.

Nododd rhai clercod a chynghorwyr fod rhai cynghorwyr yn awyddus i gymryd lwfans ond eu bod yn cael eu hannog i beidio gan hen ddiwylliant o beidio â hawlio mewn cyngor a phwysau gan gynghorwyr eraill, y rheini'n aml yn aelodau ers tro, a oedd yn teimlo nad oedd yn briodol hawlio.

## 3. Rolau uwch yn y Cyngor (ac eithrio'r Maer/Cadeirydd)

Nid oedd y rhan fwyaf o gynghorau'n talu unrhyw lwfansau uwch. Fodd bynnag, roedd rhai clercod yn teimlo bod rhai cadeiryddion pwyllgorau, megis cadeiryddion cynllunio neu gyllid, yn gymwys i gael taliad o'r fath gan fod eu llwythi gwaith yn arbennig o drwm a'u bod yn aml yn neilltuo llawer mwy o oriau nag aelodau eraill nad oeddent yn gadeiryddion pwyllgorau.

Nododd rhai clercod a chynghorwyr fod y dyletswyddau a allai arwain at rôl 'uwch' yn cael eu trosglwyddo i'r clerc ddelio â nhw fel gweithiwr cyflogedig y cyngor. Soniodd eraill nad oedd awydd am y math hwn o lwfans gan fod cynghorwyr yn ystyried y rolau fel 'cyfraniad gwirfoddol' at waith y cyngor yr oedd yr aelodau'n hapus i'w gyflawni.

## 4. Lwfans Dinesig

Mae rôl y maer/cadeirydd yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y cyngor a'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu. Roedd gan y cynghorau hynny sy'n gwasanaethu poblogaethau mwy neu sydd â phoblogaeth uchel o dwristiaid ar adegau penodol o'r flwyddyn lawer mwy o rôl seremonïol. Roedd rhai o feiri'r cymunedau mwy yn mynd i dros 200 o ddigwyddiadau dinesig y flwyddyn. Tra mai prif swyddogaeth cadeiryddion/meiri cynghorau mewn cymunedau gwledig gyda phoblogaethau isel yw cadeirio cyfarfodydd y cyngor. Roedd dyletswyddau seremonïol neu ddinesig y

meiri/cadeiryddion hynny'n brin. Roedd y rheini a chanddynt lawer o ddyletswyddau dinesig yn debygol o neilltuo mwy o amser i'r cyngor a chreu mwy o gostau na'r rheini oedd yn cadeirio cynghorau llai.

Fodd bynnag, nododd nifer fach o gynghorau eu bod yn talu lwfans personol i'r Maer/Cadeirydd am y rôl roeddent yn ei chyflawni fel pennaeth dinesig y gymuned. Roedd gan y rhan fwyaf o gynghorau gyllideb briodol i dalu am dreuliau'r maer megis rhoddion elusennol, costau teithio, costau'n gysylltiedig â dyletswyddau seremonïol a chynnal digwyddiadau dinesig ymysg eraill. Ond, nid oedd hyn yn lwfans personol i'r unigolyn am gyflawni'r rôl. Ychydig iawn o gynghorau oedd yn talu unrhyw lwfans i'r dirprwy faer/cadeirydd, a nodwyd mai rôl fach iawn ar draws y sector oedd gan ddirprwy faer/cadeirydd yn gyffredinol.

Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo ei bod yn fraint cael ymgymryd â'r swydd honno ac nid oedd unrhyw adroddiadau am gadeiryddion/meiri yn teimlo eu bod dan anfantais yn ariannol.

Yn gyffredinol, roedd y cadeiryddion a'r clercod hynny a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau'n teimlo bod y cyllidebau ar gyfer swyddogaethau'r meiri yn ddigonol i fodloni'r costau sy'n gysylltiedig â'r rôl ac nad oedd cadeiryddion ar eu colled. Holodd rai p'un ai a oedd yn dderbyniol i'r maer/cadeirydd hawlio lwfansau eraill megis costau teithio ar ben y lwfans dinesig. Roedd rhai cynghorau'n talu swm bach (ychydig o gannoedd fel arfer) i'r cadeirydd fel lwfans personol i'w wario yn ôl ei ddymuniad, ond nodwyd eto bod y cadeiryddion yn aml yn defnyddio'r arian hwnnw i dalu am roddion elusennol neu wasanaethau yn y gymuned - nid oeddent o reidrwydd yn ei hystyried yn gydnabyddiaeth ariannol bersonol ar gyfer y dyletswyddau roeddent yn eu cyflawni.

## 5. Teithio a Chynhaliaeth

Cymysg oedd y farn am hawlio costau teithio a chynhaliaeth ar draws y sector. Roedd rhai cynghorau wedi cymeradwyo taliadau o'r fath ac roedd cynghorwyr yn hawlio lle bo angen; roedd eraill wedi cymeradwyo taliadau ond roedd diwylliant o beidio â'u hawlio; ac mewn rhai cynghorau, nid oedd costau teithio a chynhaliaeth wedi'u cymeradwyo o gwbl.

Byddai'r rhan fwyaf o gynghorwyr a oedd yn hawlio treuliau fel arfer yn gwneud hynny am fynd i gynadleddau neu gyrsiau hyfforddi yn y sector, yn enwedig y rheini sy'n cael eu cynnal gan Un Llais Cymru. Efallai y byddai'n rhaid i gynghorwyr deithio'n bell i fod yn bresennol mewn digwyddiadau o'r fath, a heb fod â modd o hawlio costau teithio ni fyddai llawer o gynghorwyr yn mynd.

## 6. Costau Gofal

Ni nododd unrhyw gyngor oedd yn bresennol eu bod wedi talu unrhyw gostau lwfans gofal. Nodwyd bod hon yn elfen ychwanegol ddiweddar at y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ond y nod oedd annog cynghorwyr sydd â chyfrifoldebau gofal neu ofynion cymorth personol i gymryd rhan lawn yn nyletswyddau'r cyngor. Nid oedd rhai o'r cynghorwyr oedd yn bresennol yn gwybod unrhyw beth am y lwfans.

Mynegodd rai clercod a chynghorwyr bryderon ynghylch y baich y byddai'r costau hyn yn ei roi ar gyllidebau cynghorau petaent yn cael eu cymeradwyo, a'r anhawster o ran rhagweld faint y gallai aelodau ei hawlio. Ni fyddai modd i gyngor bach dalu £403 y mis yn rheolaidd heb weld goblygiadau difrifol i'w gyllid, ac er ei bod yn annhebygol y byddai llawer o gynghorwyr yn gymwys i hawlio'r swm llawn, mae dal angen ystyried hyn. Mynegwyd pryderon hefyd o ran yr angen i sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, a hefyd o ran sut y dylid cyflwyno tystiolaeth o drefniadau gofal anffurfiol er mwyn bodloni gofynion proses archwilio.

Nododd rhai clercod a chynghorwyr oedd yn bresennol eu bod yn gwybod am unigolion yn y gorffennol a oedd wedi tynnu'n ôl rhag sefyll yn eu cynghorau gan nad oeddent yn gallu fforddio talu am gostau gofal er mwyn eu galluogi i ddod i gyfarfodydd. Roedd eraill yn gwybod am gynghorwyr oedd wedi hawlio o'r blaen ond wedi cael eu herlid am wneud hynny. Roeddent yn teimlo bod gallu cynghorau i ad-dalu costau gofal er mwyn bod yn bresennol mewn dyletswyddau cymeradwy yn elfen bwysig yn y gwaith o annog ymgeiswyr amrywiol a chadw aelodau a oedd yn ofalwyr neu oedd ag anghenion cymorth personol.

## 7. Edrych i'r dyfodol

Nododd bron bob cyngor oedd yn bresennol yn y digwyddiadau hyn y pwysau ariannol cynyddol sy'n wynebu cynghorau cymuned. Roedd llawer eisoes wedi ymgymryd â sawl swyddogaeth yr oedd y prif gynghorau'n arfer eu cyflawni. Roedd rhai o'r swyddogaethau hyn yn gymharol syml, megis ariannu a chynnal a chadw goleuadau neu erddi, roedd natur eraill yn fwy cymhleth, megis darparu gwasanaethau ieuenctid.

Roedd y rhan fwyaf o glercod a chynghorwyr yn teimlo bod llwythi gwaith a chyfrifoldebau'n cynyddu. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn rhoi rhagor o ddyletswyddau ar gynghorau cymuned a thref lle'r oedd incwm

neu wariant gros o £200,000 o leiaf. Rhaid trefnu hyfforddiant newydd neu ychwanegol yn aml er mwyn galluogi cynghorwyr i ymgymryd â chyfrifoldebau o'r fath ond nododd llawer o glercod a chynghorwyr amharodrwydd aelodau i ymgymryd â hyfforddiant. Roedd presenoldeb gwael yn aml ar gyrsiau hyfforddi, neu roedd yn rhaid canslo oherwydd diffyg diddordeb.

Nododd cynghorwyr a chlercod hefyd bryderon ynghylch prinder ymgeiswyr yn sefyll ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned a thref ym mis Mai 2017 a nifer y seddau diwrthwynebiad. Mae'n bosibl bod cydnabyddiaeth ariannol yn ffactor yn hyn a bod rhai unigolion yn penderfynu peidio â sefyll am resymau ariannol. Efallai bod pobl mewn cyflogaeth yn penderfynu peidio â sefyll gan eu bod yn meddwl y byddai'n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith ac ymrwymiadau teuluol â rhai'r cyngor. Yn hanesyddol, mae cynghorau cymuned a thref wedi cael eu hystyried yn rôl i unigolion hŷn, sydd wedi ymddeol ac yn gallu fforddio rhoi o'u hamser am ddim. Fodd bynnag, gallai fframwaith cydnabyddiaeth ariannol uwch neu well wella amrywiaeth cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol.

## 8. Materion eraill

Nid oedd rhai cynghorwyr yn croesawu cael gwared ar y Lwfans Presenoldeb yn adroddiad 2017/18. Mynegwyd pryderon hefyd am y gofyniad am dystiolaeth o Golled Ariannol gan gynghorydd. Nodwyd ei bod yn anodd i gynghorwyr oedd yn hunangyflogedig ddarparu tystiolaeth o unrhyw golled ariannol.

**Ymateb y Panel**

Mae cylch gwaith y Panel wedi'i nodi'n glir yn y ddeddfwriaeth, ac felly er bod y Panel yn dangos diddordeb brwd yng ngweithgareddau'r sector yn ehangach, dim ond ar faterion sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chydnabyddiaeth ariannol y gall y Panel weithredu. Cododd y clercod a'r cynghorwyr lawer o feysydd o bryder lle nad oes modd i'r Panel ei hun weithredu arnynt, megis gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, perthnasoedd â'r prif gynghorau a materion ariannu. Lle bo'n briodol, bydd y Panel yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am sylwadau o'r fath.

Bydd y Panel yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn y digwyddiadau hyn fel sail i'w Adroddiad Blynyddol 2018/19, ac fel sylfaen i gyflawni rhagor o ymchwil.

Er bod holl benderfyniadau'r Panel yn oddefol eu natur, mae'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol wedi'i lunio i gefnogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Roedd y Panel yn siomedig ac yn hynod bryderus yn clywed bod diwylliant o beidio â hawlio lwfansau mewn rhai cynghorau ac yn fwy pryderus hyd yn oed o glywed yr adroddiadau bod unigolion yn cael eu hannog i beidio â hawlio. Mae'r Panel yn credu na ddylai unrhyw gynghorydd fod dan anfantais ariannol yn sgil ei wasanaeth. Mae gan y Panel bryderon penodol ynghylch hyn o ran ad-dalu costau gofal ac o beidio â hawlio costau teithio - ni ddylai unrhyw aelod fod dan anfantais ariannol wrth gyflawni dyletswyddau cymeradwy megis cynadleddau a hyfforddiant.

Mae'r digwyddiadau hyn wedi tynnu sylw at yr angen i annog amrywiaeth a chefnogaeth i aelodau lle mae eu hangen a dylai cynghorau gytuno i sicrhau bod y lwfansau hyn ar gael i bob cynghorydd pryd bynnag y gofynnir amdanynt.

Mae'r Panel yn gwybod bod 'cyllideb' y maer yn aml yn cael ei drysu â'r ddarpariaeth i dalu lwfans personol i'r cadeirydd/maer er mwyn cydnabod y rôl mae'n ei chwarae a bydd yn gwneud rhagor o waith i egluro'r gwahaniaeth.

Mae'r Panel wedi nodi'r pryderon ynghylch cael gwared ar y Lwfans Presenoldeb a bydd yn ystyried hyn ymhellach.

Bydd y Panel yn ystyried posibilrwydd bandio cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn y dyfodol. Efallai y bydd cynghorwyr yn fwy parod i fanteisio ar lwfansau os byddant yn cael eu rhoi mewn band perthnasol yn ôl maint eu cynghorau neu lefel gweithgarwch. Mae'n bosibl y byddai modd gweithredu'r broses bandio hon ar sail archebion, cyllideb, gwariant a/neu boblogaeth, a bydd y Panel yn cymryd ei amser i ystyried pa elfennau eraill y dylid eu hystyried a p'un ai a fyddai'r dull hwn yn briodol unrhyw adeg yn y dyfodol. Gan ei bod yn debygol y bydd llwythi gwaith y dyfodol yn cynyddu gyda mwy o swyddogaethau'n cael eu

trosglwyddo o'r prif gynghorau ac wrth symud at sicrhau gweithio fesul rhanbarthau byddai modd defnyddio'r lwfans hwn ar gyfer rolau uwch yn fwy cyffredin.

Bydd y Panel hefyd yn ystyried p'un ai a ddylai ei benderfyniadau ynghylch cynghorau cymuned a thref gael eu gwneud yn orfodol yn hytrach na goddefol. Ymateb cymysg i hyn gafodd y Panel yn ei ddigwyddiadau ymgysylltu gyda rhai clercod a chynghorwyr yn teimlo y byddai'n arwain at fwy o gydraddoldeb ymysg aelodau, yn annog amrywiaeth ac yn mynd i'r afael â'r diwylliant hanesyddol o beidio â hawlio lwfansau. Roedd eraill yn teimlo y byddai hyn yn rhoi gormod o bwysau ar argymhellion cynghorau gan y byddai'n rhaid iddynt dalu mwy o lwfansau, a byddai hyn yn mynd yn erbyn y farn gref o fod yn gynghorydd cymuned fel gwasanaeth cyhoeddus 'gwirfoddol'. Mae'r Panel o'r farn nad yw cynghorwyr yn wirfoddolwyr ond yn hytrach yn gynrychiolwyr etholedig o gorff statudol. Bydd y Panel yn ystyried yr holl faterion hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch natur oddefol penderfyniadau.

Bydd y Panel hefyd yn gwneud rhagor o waith ar y diffyg cydymffurfio o ran gofynion adrodd y Panel. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Panel, dylai'r holl gynghorau gyhoeddi datganiad o'r lwfansau sy'n cael eu talu i aelodau yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r Panel wedi cyhoeddi a dosbarthu pro forma at y diben hwn, a bydd yn parhau i wneud hyn bob blwyddyn. Mae rhai cynghorwyr wedi gofyn i'r Panel ei gwneud yn ofynnol cofnodi manylion nifer yr oriau mae cynghorydd yn eu gweithio er mwyn cyfiawnhau'r lwfansau sy'n cael eu hawlio yn gyhoeddus. Byddai hyn yn rhoi rhagor o faich gweinyddol ar adnoddau clerigol sydd eisoes dan bwysau, ac felly er na fyddai'r Panel yn atal hyn ar sail wirfoddol, nid yw'n bwriadu gwneud hyn yn ofyniad gorfodol.

Mynegodd nifer o glercod a chynghorwyr bryderon ynghylch amseru cyhoeddi Adroddiad Blynyddol terfynol y Panel. Mae'r Cynghorau Cymuned a Thref wedi pennu eu hargymhellion ym mis Ionawr, felly mae unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol ar ôl hynny'n anodd iawn eu gweithredu gan fod cyllidebau eisoes wedi'u dyrannu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ar hyn o bryd, mae amserlenni cyhoeddiadau'r Panel wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ac mae treigl y rhaglen waith blynyddol yn cael ei phennu yn unol â hynny. Bydd y Panel yn ystyried a oes unrhyw ffordd o unioni'r amserlenni'n well.

Bydd y Panel yn parhau i gynnal trafodaethau ag Un Llais Cymru, Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Cymuned Lleol wrth iddo ystyried ei fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Bydd Adroddiad Blynyddol 2018/19 drafft y Panel yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2018 a byddai'r Panel yn annog yr holl gynghorau i

ystyried y penderfyniadau yn yr adroddiad ac i ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai'r Panel yn annog clercod i rannu gwybodaeth am ba lwfansau sydd ar gael iddynt i bob cynghorydd newydd sy'n ymgymryd â swyddi ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2017.